



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

ARWEINYDD CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Rhif y Swydd: 504865
GRADD: 12
CYFLOG: £34,373 i £35,336
(Dyfarniad Tâl yn Arfaethedig)
37 awr yr wythnos

Ydych chi'n angerddol dros Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant?

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn chwilio am Arweinydd Cydraddoldeb profiadol sy'n edrych am gyfle newydd i hyrwyddo agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) o fewn sefydliad gwych, sy'n ymdrechu bob dydd i amddiffyn cymunedau Cymru.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i fod yn rhan o dîm perfformiad uchel gyda ffocws ar gwsmeriaid. Bydd y rôl yn cefnogi'r Gwasanaeth i wella'r diwylliant o berthyn, hyrwyddo cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth. Gyda chyfle i lunio dyfodol agenda CAC, byddwch chi'n ganolog wrth ddatblygu polisi, ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a hwyluso newid ar draws un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub mwyaf yn y DU.

Rhaid bod gan ddeiliad llwyddiannus y swydd brofiad blaenorol o arwain mentrau CAC a darparu atebion a chynghor sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid o safbwynt cyfraith Cydraddoldeb ac arfer gorau. Byddai profiad o feithrin perthnasoedd o fewn y maes hwn gyda rhanddeiliaid allanol hefyd o fudd, ynghyd â'r gallu i ysgrifennu'n effeithiol at ddibenion adrodd ac ymgysylltu.

Sylwch na fydd cyfle i lenwi'r rôl hon ar sail secondiad neu rannu swydd.

Achos natur y rôl fe fydd adegau pan fydd gofyn i'r unigolyn weithio gyda'r nos neu ar benwythnosau a bydd peth teithio ar draws ardal GTADC. Mae'r gallu i deithio'n annibynnol yn ofynnol.

Ceir rhagor o fanylion am y swydd hon yn y Swydd Ddisgrifiad a'r Manyleb Person, y gellir eu llwytho i lawr ynghyd â ffurflen gais o dudalennau Gweithio i Ni/Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk. Os oes unrhyw gwestiynau eraill gyda chi ynglŷn â'r swydd hon, gallwch gysylltu â Serena Ford (**Rheolwr AD - Dysgu & Datblygu**) drwy law e-bost s-ford@decymru-tan.gov.uk.

Dylid danfon ffurflenni cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX neu drwy law e-bost at . Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **Dydd Gwener y 7^{fed} o Hydref 2022 am 12:00 hanner dydd.**

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a bydd polisi gweithio'n hyblyg mewn grym. Gallai'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad cofnodion troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gallai fod yn ofynnol iddo ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn penodi.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni chaiff ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

